CYNGOR TREF RHUTHUN
RUTHIN TOWN COUNCIL

Cofnodion (DRAFFT) Cyfarfod Arbennig **CYNGOR TREF RHUTHUN**
a gynhaliwyd mewn modd hybrid nos Lun 4 o Orffennaf 2022 am 7:00pm.

YN BRESENNOL: Cynghorydd Menna Jones (Maer),
Cynghorwyr Stephen Beach, Oliver Bradley-Hughes, Christine Ellis, Ethan Jones, Gavin Harris, Ian Lewney, Jabez Redfern Oakes, Anne Roberts a Rachel Ryland.

YN BRESENNOL: Kate Harcus – Dirprwy Glerc Rhuthin
Marian Rees - Cyfieithydd

CROESO
Croesawyd pawb a oedd yn bresennol yn gynnes gan y Maer i gyfarfod arbennig y Cyngor Tref i ystyried y datganiadau o ddiddordeb a dderbyniwyd ar gyfer y pedwar lle gwag ar y Cyngor Tref.

56. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
Dim

57. DATGAN BUDDIANNAU
Dim.

58. CYFETHOL I GYNGOR TREF RHUTHUN
Roedd chwe unigolyn wedi cyflwyno datganiad o ddiddordeb yn y pedair sedd wag ar y Cyngor Tref; dosbarthwyd y wybodaeth i'r Aelodau cyn y cyfarfod. Dywedodd Dirprwy Glerc y Dref wrth yr Aelodau am y broses bleidleisio a fyddai'n cael ei chynnal drwy bleidlais, gyda'r pleidleisiau'n cael eu cyfrif gan Ddirprwy Glerc y Dref a'r Cyfieithydd. Hysbyswyd yr Aelodau o ganlyniad y balot gan y Maer a chyhoeddwyd bod yr Aelodau cyfetholedig newydd (mewn dim trefn benodol) fel a ganlyn:
PENDERFYNWYD: *bod Dafydd Hughes, Rosie Hughes-Anderson, Lisa Thomas a Mike van der Eijk yn aelodau cyfetholedig o Gyngor Tref Rhuthun.*

59. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF
PENDERFYNWYD: *Cadarnhau dyddiad cyfarfod nesaf y Cyngor Tref ar 26 o Fedi 2022 am 7.00. p.m.*